# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021

Amser: 13.00 - 14.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12718

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS |
| Tystion: | Michelle Morris, ymgeisydd dewisol o ran swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Owain Davies (Ymchwilydd)<br>Catherine McKeag (Ysgrifenyddiaeth)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rhag-gyfarfod preifat - Anffurfiol (12.45-13.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Llywydd at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 - 25 Tachwedd 2021

### 2.2 PTN 2 - Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Archwilio, Cynulliad Gogledd Iwerddon: Ystyried Trothwyon ar gyfer Monitro yn ystod y Flwyddyn: Comisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon - 29 Tachwedd 2021

### 2.3 PTN 3 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - Deiseb P-05-1078 - Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid! - 2 Rhagfyr 2021

## 3 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Gwrandawiad cyn enwebu.

3.1 Cynhaliodd y Pwyllgor Wrandawiad Cyn-enwebu ynghylch yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Michelle Morris.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Trafod y gwrandawiad cyn enwebu.

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir.

## 6 Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pwer i Addasu) – Dull o graffu

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o graffu ar Gyfnod 1 Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu).

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 – Ymgysylltu â Dinasyddion

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion i’r ymgynghoriad a chrynodeb o'i waith ymgysylltu.